Gwasanaeth Carchardai
a Phrawf EF

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal
HMPPS Cymru a CAS
Tŷ Churchill
Caerdydd
Cymru
CF10 4HH

Martin Jones
Prif Arolygydd Prawf EF
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre,
1 Bridge Street West,
Manchester
M3 3FX

06.10.25

Annwyl Martin,

Adroddiadau'r Arolygiaeth Prawf ar arolygu Uned Gyflawni Prawf Abertawe Castell-nedd Port Talbot (yr Uned Gyflawni), Rhanbarth Cymru – Awst 2025

Diolch i chi am eich adroddiadau arolygu i Uned Gyflawni Prawf Abertawe Castell-nedd Port Talbot (yr Uned Gyflawni), lle bu i chi wneud chwech argymhelliad.

O ran yr argymhellion, gallaf gadarnhau fod pob un wedi'i ystyried yn ofalus a, chyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, bydd Pennaeth yr Uned Gyflawni'n sicrhau y byddir yn cymryd camau i roi sylw iddynt fel bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys:

- Gweithredu'r fframwaith goruchwylio rheolaeth, gan sicrhau goruchwyliaeth effeithiol a chyson, gydag uwch-reolwyr yn arsylwi ymarfer yn rheolaidd
- Gwreiddio Archwiliadau Cadw Pobl yn Ddiogel fel rhan o sicrwydd Haen 1, gyrru gwelliant wrth asesu, rheoli ac adolygu risg o niwed.
- Cyflawni rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus wedi'i thargedu sy'n cyd-fynd â Safonau Cofrestru Proffesiynol, gan gynnwys atgyfnerthu canllawiau ynghylch cam-drin domestig ac ymholiadau diogelu.
- Trefniadau partneriaeth wedi'u cryfhau gyda'r heddlu a'r gwasanaethau plant, gan gynnwys ffurflenni cyfnewid gwybodaeth diwygiedig a datblygiad metrigau ansawdd Lefel 1 Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) .

Er yn cydnabod bod llawer mwy o waith i'w wneud eto yn yr Uned Gyflawni, rwyf wedi fy nghalonogi yr adroddwyd ar ganlyniadau cadarnhaol a nodaf yr isod:

- Bu i arolygwyr adnabod arweinyddiaeth gref sy'n gwneud argraff, diwylliant trefniadaethol cadarnhaol ac ymrwymiad clir i lesiant, dysgu a datblygiad staff.
- Mae'r Uned Gyflawni wedi hyrwyddo arloesedd, gan arwain prosiectau wedi'u cynllunio i wella canlyniadau i staff a phobl ar brawf a chymryd rhan yn y prosiectau hynny.

- Tystiolaeth o annog ymgysylltiad â phobl ar brawf, yn enwedig mewn perthynas ag ymataliad ac ansawdd asesiadau a chynllunio.
- Dealltwriaeth glir o broffil y llwyth achos, gyda thimau arbenigol (megis tîm y merched) a chydleoli effeithiol gyda darparwyr gwasanaeth yn cyfrannu at fwy o waith cyflawni teilwredig.

Rwy'n parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau cynnydd yn erbyn argymhellion yr Arolygiaeth a gallaf eich sicrhau, trwy fy swyddogaethau sicrwydd gweithredol a chefnogaeth Grŵp Perfformiad, Sicrwydd a Risg yr HMPPS, y byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn agos, yn unol â'ch canfyddiadau.

Yn gywir

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal HMPPS Cymru

CC: Swyddfa Breifat
Kim Thornden-Edwards, Prif Swyddog Prawf yr HMPPS
Nicola Davies, Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Cymru